*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA, am y cyfnod 1 Rhagfyr 2023 i 29 Chwefror 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno. Mae'r adroddiad yn cadarnhau canfyddiadau adolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2024.

4 Mae'r adroddiadau manwl sy'n ymwneud â'r adolygiadau a gwblhawyd wedi'u nodi yn atodiadau 2-5 ac yn rhoi sicrwydd ar fodolaeth a gweithrediad rheolaethau allweddol. Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2023/24; a**
**ii) Nodi'r gwaith sydd wedi'i gwblhau rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2024, gan gynnwys yr argymhellion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwelliant pellach.**

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ei ganfyddiadau. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

8 Penododd yr Awdurdod MIAA fel ei archwilydd mewnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Mehefin 2023. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2023/24 ac yn cadarnhau bod yr adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau yn y cyfnod adrodd:

- Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol
- Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)
- Trefniadau Rheoli Risg

10 Darperir yr adroddiadau manwl o fewn atodiadau 2-4 ac maent yn amlinellu'r meysydd a fu'n destun adolygiad a'r canfyddiadau allweddol. Mae'r adolygiadau wedi tynnu sylw at argymhellion ar gyfer gwaith a gwelliannau pellach y cytunwyd arnynt hefyd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi cyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses o bennu cyllideb effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |